Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre

# Anrhegion Etifeddiaeth - Cwestiynau Cyffredin

**Nid oes gennyf lawer i'w roi, a allaf ddal i adael rhodd i Hijinx?**
Gallwch. Un o fanteision gadael rhodd yn eich ewyllys yw eich bod yn gallu dewis canran fechan o'ch ystâd, yn hytrach na swm penodol. Ar ôl i'ch teulu a'ch ffrindiau gael gofal, mae hyn yn ffordd ystyrlon o gefnogi achos sy'n agos at eich calon – ac oherwydd ei fod yn ganran, ni fydd gwerth eich rhodd yn cael ei ostwng gan chwyddiant dros amser.

**Onid ydy fy ewyllys yn breifat?**
Ydy. Mae eich ewyllys yn ddogfen breifat, ac nid oes raid i chi ddweud wrthym am eich rhodd. Ond os ydych yn dewis rhannu eich bwriadau, byddem wrth ein bodd yn diolch i chi'n bersonol – dim ond os yw hynny'n teimlo'n iawn i chi. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwch yn dewis ei rhannu gyda ni yn cael ei thrin yn hollol gyfrinachol ac nid yw'n gyfreithiol rwymol.

**A allaf enwi fy rhodd er cof am rywun arbennig?**
Yn bendant. Mae llawer o gefnogwyr yn dewis gadael rhodd er cof am anwylyd, ffrind, neu rywun a wnaeth eu hysbrydoli. Byddai'n anrhydedd i ni eu cydnabod os dymunwch. Gallwch roi gwybod i ni beth yw eich dymuniadau ymlaen llaw trwy lenwi Ffurflen Addo Cymynrodd.

**A allaf gyfyngu fy rhodd i brosiect neu ddiben penodol?**
Gallwch. Er ein bod yn ddiolchgar iawn am roddion a adewir i gefnogi ein gwaith elusennol cyffredinol, rydym yn barod iawn i siarad gyda chi am benodi eich rhodd ar gyfer maes o'n gwaith sy'n arbennig o ystyrlon i chi – fel ein hacademïau hyfforddi, allestyn cymunedol neu deithiol. Gallwch roi gwybod i ni beth yw eich dymuniadau ymlaen llaw trwy lenwi Ffurflen Addo Cymynrodd.

**Beth ddylwn i ei ddweud wrth fy nghyfreithiwr?**
Rhowch wybod i'r cyfreithiwr eich bod am adael rhodd yn eich ewyllys i Theatr Hijinx. Gallwch gynnig y geiriad a awgrymir gennym ni ar y dudalen hon ar y wefan. Bydd eich cyfreithiwr yn gofalu am y manylion cyfreithiol.

**Beth yw'r rheoliadau o ran rhoddion a threth etifeddiant?**
Mae rhoddion i elusennau sydd wedi eu cofrestru yn y Deyrnas Unedig fel Hijinx, yn rhydd o dreth etifeddiant 100%. Os byddwch yn gadael 10% neu fwy o'ch ystâd i elusen, gall y gyfradd dreth ar weddill eich ystâd gael ei gostwng o 40% i 36%. Rydym yn argymell siarad â chyfreithiwr neu gynghorydd ariannol i gael canllawiau penodol i'ch sefyllfa chi, yn ogystal â gwybodaeth bellach gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am y wybodaeth ddiweddaraf.

**A allaf newid fy meddwl yn nes ymlaen neu ychwanegu rhodd i Hijinx mewn ewyllys yr wyf wedi ei ysgrifennu yn barod?**
Wrth gwrs. Gallwch ddiweddaru eich ewyllys ar unrhyw adeg. Os ydych eisoes wedi gwneud ewyllys, gall eich cyfreithiwr ychwanegu codisil (diwygiad) i gynnwys neu newid rhodd i elusen.